Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Tŷ Gibraltar**

**Pentref Gofal Gibraltar**
**Tŷ Gibraltar**
**Heol Portal**
**Trefynwy**
**NP25 5FL**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

07/09/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Tŷ Gibraltar

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gibraltar Care Village Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 95 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 01 Medi 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae'r rhan fwyaf o'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael yng ngwasanaeth cartref gofal Tŷ Gibraltar. Ailgyflwynwyd cyfleoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau wedi'u cynllunio, ond mae lefelau'r rhyngweithio cymdeithasol a'r ysgogi yn amrywio o ddydd i ddydd. Mae gan bob person gynllun gofal personol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae'r cynlluniau hyn yn cyfarwyddo'r staff ar y ffordd orau o ddarparu gofal a chymorth. Nid yw'r cynlluniau personol bob amser yn nodi canlyniadau na dyheadau personol y bobl na sut y gallant gael eu cyflawni.

Mae'r broses o reoli meddyginiaethau wedi gwella. Caiff y gwasanaeth ei oruchwylio o ddydd i ddydd gan reolwr y gwasanaeth, nad yw wedi'i gofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu, Gofal Cymdeithasol Cymru, eto. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn unol â'r rheoliadau. Caiff y gwasanaeth gymorth clinigol a goruchwyli ychwanegol o bell er mwyn nodi meysydd i'w gwella. Mae'r systemau mewnol a ddefnyddir i gefnogi a meithrin sgiliau'r staff wedi nodi bylchau o ran hyfforddiant gloywi. Mae angen gwella'r maes hwn. Mae'r staff gofal yn mwynhau eu gwaith ac yn hapus yn eu rolau ar y cyfan. Mae'r gallu i ddefnyddio'r ardaloedd awyr agored yn gyfyngedig yn sgil y materion cynnal a chadw parhaus a'r oedi cyn cwblhau gwaith atgyweirio strwythurol.

## Llesiant

Caiff y bobl eu hannog a'u cefnogi gan y staff gofal i fod mor iach â phosibl. Mae gwasanaethau meddyg teulu ar gael i'r bobl a chaiff apwyntiadau â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eu trefnu. Gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn cyfathrebu â gweithwyr proffesiynol i drafod y bobl y mae eu hanghenion wedi newid. Roedd y cynlluniau personol a welsom yn ddigon manwl ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Caiff y trefniadau ar gyfer storio a rhoi meddyginiaethau eu rheoli ac maent yn cydymffurfio â'r polisi meddyginiaeth. Cynigir diodydd i'r bobl a chaiff eu cwpanau eu llenwi yn ôl yr angen. Mae'r staff yn ymwybodol o hoff bethau a chas bethau'r bobl yn ogystal â'u halergeddau a'u deietau arbenigol. Roedd y gwasanaeth wedi cael ei arolygu gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac wedi ennill sgôr o bump, sy'n dangos bod y gwasanaeth yn dda iawn.

Mae systemau ar waith i helpu i ddiogelu'r bobl rhag cael eu cam-drin a'i niweidio. Caiff risgiau i'r bobl eu hasesu a chaiff eu diogelwch ei reoli a'i fonitro. Mae systemau ar waith i gofnodi damweiniau a digwyddiadau. Caiff gwiriadau o gymeriad ac addasrwydd y staff i gyflawni eu rolau cyn rhoi gofal eu cwblhau. Mae gan y darparwr bolisi a chanllawiau diogelu i'r staff eu dilyn ac mae'r gwasanaeth wedi gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i gymryd rhan yn y broses ddiogelu. Mae cyfyngiadau angenrheidiol ar waith er budd pennaf y bobl i'w cadw'n ddiogel; mae'r rhain yn ymddangos yn gymesur.

Mae'r bobl yn cael eu hannog i gynnal rheolaeth dros eu bywydau pob dydd, lle y bo hynny'n bosibl. Mae'r gwasanaeth wedi ailddechrau cynnal cyfarfodydd â pherthnasau a chynrychiolwyr er mwyn ystyried safbwyntiau a dymuniadau'r bobl, a bydd cyfarfodydd preswylwyr yn cael eu hailgyflwyno er mwyn rhoi llais i'r bobl a'u galluogi i gyfrannu at y ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu.

Nid yw'r amgylchedd ffisegol yn diwallu anghenion pawb. Mae digon o le i unigolion gymdeithasu, ymlacio a rhyngweithio ag eraill, gan gynnwys nifer o ardaloedd cymunedol a choridorau sy'n cynnwys ardaloedd eistedd rheolaidd. Mae hyn yn cefnogi'r bobl ymhellach i symud o gwmpas yn annibynnol. Mae gan y bobl eu hystafelloedd eu hunain, sy'n lân ac wedi'u personoli'n unol â'u chwaeth bersonol er mwyn creu ymdeimlad o berthyn. Mae'r gallu i ddefnyddio'r ardal awyr agored yn gyfyngedig o hyd yn sgil gofynion cynnal a chadw. Gallai amseroldeb y gwaith i osod llawr newydd yn y cartref a phalmant y tu allan i'r adeilad beri risg i iechyd a diogelwch y bobl.

Gwnaethom nodi gwahaniaeth yn lefel y rhyngweithio cymdeithasol a'r ysgogi cyffredinol i gefnogi llesiant y bobl hyrwyddo. Mae pob aelod o'r staff yn gyfrifol am gynnal gweithgareddau, ysgogi'r bobl a rhyngweithio'n gymdeithasol â nhw. Nid oes unrhyw staff gweithgareddau dynodedig yn y gwasanaeth. Mae nifer y cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u cynllunio wedi cynyddu yn sgil ailgyflwyno ymweliadau gan ddiddanwyr i'r gwasanaeth.

Ar adeg yr arolygiad hwn, nid oedd y cartref yn darparu gwasanaeth i bobl yn Gymraeg a byddai'n rhaid iddo gynllunio sut i hwyluso gwasanaeth yn Gymraeg pe bai angen darpariaeth o'r fath.

## Gofal a Chymorth

Roedd y bobl yn canmol y gwasanaeth a ddarperir ar y cyfan. Dywedodd un unigolyn wrthym *“I like it here”,* a dywedodd unigolyn arall, *“staff are lovely”.* Roedd y teuluoedd a oedd yn ymweld â'r cartref y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y gofal y mae eu hanwyliaid yn ei gael. Dywedodd un unigolyn wrthym, *“staff are excellent, I cannot praise them enough”.*

Mae gan bob unigolyn sy'n derbyn gwasanaeth gynllun personol unigol sy'n amlinellu ei anghenion gofal a chymorth. Mae'r cynlluniau personol yn nodi sut y gall y staff ddiwallu anghenion penodol y bobl, er enghraifft, cefnogi rhywun sy'n wynebu risg o niwed i'r croen. Mae'r asesiadau risg a'r cynlluniau rheoli yn nodi nodweddion agored i niwed y bobl ac yn hyrwyddo arferion diogel. Mae cofnodion dyddiol a siartiau monitro ategol ar waith a gwelsom fod y cynlluniau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Nid ydynt bob amser yn cynnwys canlyniadau a nodau personol yr unigolion na sut y gellid eu cyflawni.  Nid ydynt bob amser yn cynnwys tystiolaeth o gyfraniad y bobl at adolygiadau a'r broses o wneud penderfyniadau. Mae angen gwella'r rhain ymhellach ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn. Byddwn yn ystyried y mater eto yn ystod ein harolygiad nesaf.

Mae systemau ar waith ar gyfer rheoli a storio meddyginiaethau. Caiff meddyginiaethau eu storio'n ddiogel a dim ond aelodau o staff ag awdurdod all gael gafael arnynt. Mae'r ymarferwyr gofal yn cael hyfforddiant ychwanegol i gefnogi'r nyrsys gydag elfennau o'r broses o roi meddyginiaeth, a chaiff pob aelod o'r staff ei gefnogi gan y polisi meddyginiaeth manwl sydd ar waith. Caiff meddyginiaethau eu goruchwylio a'u monitro o bell gan staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant clinigol yn y sefydliad i nodi unrhyw wallau posibl. Caiff camau unioni eu nodi, a bydd uwch-glinigydd y gwasanaeth yn eu rhoi ar waith. Gwelsom fod gwelliannau wedi'u gwneud mewn perthynas â meddyginiaeth gudd a meddyginiaeth ‘yn ôl yr angen’ (PRN). Mae angen ymgorffori'r gwelliannau hyn a'u rhoi ar waith yn gyson.

Roedd lefel yr ymgysylltu a'r rhyngweithio rhwng y staff a'r bobl yn amrywio drwy gydol yr arolygiad. Yn ystod amseroedd bwyd, gwelsom fod staff o adrannau gwahanol yn cael eu defnyddio i ategu'r lefelau staffio. Roedd hyn yn gwella profiadau'r mwyafrif o bobl yn ystod amseroedd bwyd, ond bu'n rhaid i'r rhai yr oedd angen help arnynt i fwyta eistedd ac aros am gymorth. Gwelsom y staff yn annog y bobl ac yn rhoi tawelwch meddwl iddynt, er enghraifft, gwelsom un aelod o'r staff yn helpu un unigolyn i symud drwy ei annog yn dawel, gan roi ymdeimlad o gyflawniad i'r unigolyn. Gwelwyd aelod arall o'r staff yn helpu i wneud unigolyn yn fwy cyfforddus yn ei sedd mewn ffordd garedig a pharchus. I'r gwrthwyneb, gwelsom rai achosion lle roedd y rhyngweithio rhwng y staff a'r bobl yn seiliedig ar dasgau, heb fawr ddim rhyngweithio.

Ers ein harolygiad diwethaf, mae diwygiadau wedi'u gwneud i'r lefelau staffio a'r broses o ddyrannu staff ar adegau prysur. Roedd y rotas staff yn dangos rhywfaint o gynnydd yn y

lefelau staffio a llai o ddefnydd o staff asiantaeth, gan sicrhau mwy o gysondeb i'r bobl. Er gwaethaf hyn, roedd y staff yn aml yn brysur ac yn ymddangos fel pe baent yn cael eu rhuthro ar adegau. Gwelsom achosion lle y bu'n rhaid i'r bobl aros am gymorth gyda gofal personol, gan beri gofid iddynt. Mae hyn yn faes i'w wella o hyd ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn. Byddwn yn ystyried y mater eto yn ystod ein harolygiad nesaf.

## Yr Amgylchedd

Darperir llety dros dri llawr, y cyfeirir atynt fel strydoedd a thai. Mae ardaloedd cymunedol ar bob llawr lle y gall y bobl ddewis bod yng nghwmni eraill neu dreulio amser ar eu pen eu hunain. Gall y bobl symud o gwmpas yn annibynnol a gallant ddewis ble y maent am dreulio eu hamser. Mae'r coridorau yn cynnwys ardaloedd eistedd rheolaidd er mwyn i'r bobl ymlacio a rhyngweithio ag eraill. Mae gan y bobl eu hystafelloedd eu hunain, sy'n fawr, yn lân ac wedi'u personoli'n unol â'u chwaeth bersonol. Mae gan y bobl luniau teuluol, cardiau ac addurniadau yn eu hystafelloedd sy'n creu awyrgylch cartrefol. Caiff dyletswyddau glanhau a golchi dillad eu cyflawni bob dydd. Mae arogl cryf o amonia yn dod o'r carped yn un o'r tai. Yn dilyn ein harolygiad, darparwyd dyddiad ar gyfer gosod llawr laminedig yn lle'r carped.

Mae gan y darparwr systemau ar waith i liniaru risgiau i iechyd a diogelwch y bobl. Caiff amrywiaeth o wiriadau iechyd a diogelwch eu cynnal yn rheolaidd yn y gwasanaeth. Mae cyfleustodau megis nwy a thrydan yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Mae asesiadau risg ar waith ar gyfer tymheredd y dŵr a legionella. Caiff gwiriadau a gwaith cynnal a chadw parhaus eu cynnal ar gyfarpar megis teclynnau codi, slingiau a lifftiau. Mae'r gwiriadau diogelwch tân wedi gwella, ac mae gan y darparwr gynllun gweithredu ar waith yn dilyn asesiad risg tân. Mae cynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng cyfredol ar waith ac mae'n hawdd cael gafael arnynt mewn argyfwng.

Yn ystod ein harolygiad diwethaf, gwelsom fod y gallu i ddefnyddio'r ardal awyr agored yn gyfyngedig am nad oedd ardal fawr y decin wedi'i chodi yn ddiogel i'w defnyddio a bod llwybrau anwastad yn yr ardd a oedd yn peri risg o faglu a chwympo. Nid yw'r gwaith i wella mynediad i'r ardaloedd allanol wedi dechrau. Cawsom wybod am yr eildro fod y gwasanaeth wedi cael dyfynbrisiau, ond ni ddarparwyd dyddiadau dechrau. Nid yw'r ardal awyr agored yn hygyrch i bawb yn y gwasanaeth, ac nid yw'n ddiogel nac yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda. Mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae systemau llywodraethu ar waith i gefnogi'r broses o redeg y gwasanaeth. Mae trefniadau archwilio a sicrhau ansawdd o bell ar waith. Mae'r systemau hyn yn rhoi gwybod i'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr am faterion sy'n codi ac yn nodi'r meysydd y mae angen eu gwella. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn cwblhau'r adroddiadau gofynnol. Mae'r rheolwr penodedig yn rhoi sefydlogrwydd i'r gwasanaeth ynghyd â lefel gynyddol o oruchwyliaeth o'r gwasanaeth a ddarperir o ddydd i ddydd. Nid yw'r rheolwr wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu. Mae hyn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn.

Darparwyd datganiad o ddiben diwygiedig yn dilyn yr arolygiad a oedd yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn well. Rhoddir gwybod i'r rheoleiddiwr pan fydd pryderon a digwyddiadau o bwys yn effeithio ar y bobl. Mae'r darparwr yn ymgysylltu â'r broses ddiogelu gyda'r awdurdod lleol a phartïon perthnasol eraill. Gall y bobl a/neu eu cynrychiolwyr gyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth. Mae cyfarfodydd â pherthnasau a chynrychiolwyr wedi cael eu hailgyflwyno ar sail chwarterol. Bwriedir ailgyflwyno'r cyfarfodydd â'r preswylwyr. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymgysylltu â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'u teuluoedd ac yn casglu adborth ganddynt.

Mae trefniadau dethol a fetio addas ar waith i alluogi darparwr y gwasanaeth i benodi staff mewn modd diogel. Gwnaethom edrych ar ffeiliau'r staff a gwelsom fod y gwiriadau cyn cyflogi angenrheidiol wedi cael eu cynnal. Gofynnir i ymgeiswyr ddarparu hanesion cyflogaeth. Mae prosesau ar gyfer cadarnhau manylion adnabod a chael geirdaon hefyd yn helpu i sicrhau bod staff unigol yn addas i weithio yn y gwasanaeth. Mae gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar waith ac yn gyfredol. Mae staff gofal newydd eu penodi yn cwblhau rhaglen sefydlu sy'n cynnwys hyfforddiant a shifftiau cysgodol.

Mae'r systemau mewnol a ddefnyddir i gefnogi a meithrin sgiliau'r staff wedi nodi bylchau o ran hyfforddiant gloywi. Cadarnhaodd cofnodion hyfforddiant y staff a welsom fod angen i ganran uchel o'r staff gael hyfforddiant gloywi ar bynciau craidd, er enghraifft ar ddiogelwch tân, symud a chodi a chario, a diogelu.  Mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r gymryd camau i unioni hyn. Bydd y staff yn cael hyfforddiant ychwanegol i wella eu sgiliau ieithyddol, gyda ffocws penodol ar ddarparu gofal yn y gwasanaeth. Caiff y staff gofal eu cefnogi i gofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu, Gofal Cymdeithasol Cymru.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 36 | Nid yw'r staff wedi cael yr hyfforddiant craidd na'r hyfforddiant gloywi diweddaraf. | Newydd |
| 44 | Mynediad cyfyngedig i ardaloedd awyr agored sy'n hygyrch ac yn ddiogel i'w defnyddio ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol. | Newydd |
| 15 | Nid yw'r cynlluniau personol bob amser yn nodi'r canlyniadau personol yr hoffai pob unigolyn eu cyflawni, nac yn cynnwys tystiolaeth o gyfraniad y bobl at y broses o ddatblygu ac adolygu eu cynlluniau. | Heb Gyflawni |
| 34 | Nid yw'r lefelau staffio yn ddigonol ar adegau prysur i ddiwallu anghenion gofal a llesiant emosiynol y bobl. | Heb Gyflawni |
| 67 | Methiant i benodi rheolwr cofrestredig sy'n meddu ar y cymwysterau priodol. | Heb Gyflawni |
| 7 | Mae angen diweddaru'r datganiad o ddiben i adlewyrchu'r gwasanaeth presennol a ddarperir. | Cyflawnwyd |
| 60 | Mae'r darparwr wedi methu â rhoi gwybod i AGC am rai digwyddiadau fel sy'n ofynnol yn y rheoliadau. | Cyflawnwyd |
| 58 | Methiant i sicrhau y caiff meddyginiaethau eu cofnodi a'u rhoi'n briodol. | Cyflawnwyd |
| 57 | Nid yw'r systemau diogelwch tân yn ddigonol. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 25/10/2023